IS-BWYLLGOR DIOGELU'R CYHOEDD

DYDD MAWRTH, 7 MAI 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mackie(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Dilwar Ali a/ac Jacobsen |

17 : EITHRIO'R CYHOEDD

Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio o'i chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio o'r disgrifiad sydd ym mharagraff 12 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Gellir gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod drwy benderfyniad y Pwyllgor yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 wrth i'r eitem gael ei thrafod.

PENDERFYNWYD – gwahardd y cyhoedd.

18 : MATERION CERBYD HACNI / LLOGI PREIFAT

PENDERFYNWYD – Y dylid trin y materion canlynol fel y nodir:

GWRANDAWIADAU DISGYBLU

(1) Gwrandawiad 1

Ystyriodd yr Is-bwyllgor gŵyn a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd bod gyrrwr cerbyd hacni wedi gwrthod taith ac wedi gyrru i ffwrdd yn beryglus. Nododd y tyst ei bod wedi agor drws llithro'r tacsi, ac wrth wneud hynny, gofynnwyd iddi ddweud i le'r oedd am fynd. Wrth egluro ei bod am fynd i Drelái dywedodd y gyrrwr nad oedd yn mynd yno a dechreuodd yrru i ffwrdd gyda throed y tyst yn dal i fod yn y cerbyd. Roedd modd i'r tyst ddarparu rhif y bathodyn.

Dywedodd y gyrrwr nad oedd yn gwybod dim am y digwyddiad, roedd wedi mynd â chwsmer i Westy'r Marriot am 11.36 ac wedi cyflwyno cofnodion i brofi'r wybodaeth honno. Yna, gyrrodd cwsmer arall i Benarth.

PENDERFYNWYD – gwahardd y gyrrwr am 10 diwrnod am wrthod taith.

(2) Gwrandawiad 2

Dywedwyd wrth aelodau bod cwyn wedi dod i law gan aelod o'r cyhoedd bod gyrrwr wedi defnyddio ffôn symudol wrth gludo teithiwr. Roedd y sawl a gwynodd yn honni ei fod wedi archebu tacsi i fynd ag e a ffrind adref o shifft 12 awr ac wrth iddo eistedd yng nghefn y cerbyd, roedd yn gallu gweld ffôn symudol wedi'i osod ar y daliwr yn awyrellau'r car. Roedd y ffôn yn chwarae fideo ac roedd y gyrrwr yn gwylio'r fideo. Nid dyfais llywiwr lloeren ydoedd ac nid oedd yn cael ei defnyddio fel llywiwr lloeren ychwaith. Nid

oedd y sain yn Saesneg.  Gwadodd y sawl oedd yn cwyno ei fod yn feddw, gan ei fod newydd orffen shifft 12 awr yn gweithio gydag oedolion agored i niwed.

Dywedodd y gyrrwr ei fod wedi defnyddio’r llywiwr lloeren ar y ffôn, ond wrth iddo droi’r nodwedd ymlaen, ymddangosodd gêm roedd ei blant wedi’i chwarae ar ei ffôn gan ei fod yn ap sy’n cael ei gynnal yn y cefndir. Mynnodd y gyrrwr nad oedd y sawl oedd yn cwyno wedi gweld fideo'n chwarae ar y ffôn, doedd dim iaith arall wedi'i defnyddio a bod y sawl oedd yn cwyno'n feddw, yn gwynto'n gryf o alcohol a doedd e ddim yn gallu cario'i fagiau - y gyrrwr roddodd y bagiau yn y cerbyd.

PENDERFYNWYD – gwahardd y gyrrwr am 7 niwrnod am ddefnyddio ei ffôn symudol wrth gludo teithiwr.

(3) Gwrandawiad 3

Dywedwyd wrth aelodau bod cwyn wedi dod i law gan aelod o’r cyhoedd ynglŷn â gyrrwr a wrthododd taith.  Ni ddaeth y sawl a gwynodd i'r gwrandawiad.

PENDERFYNWYD:  peidio â chymryd unrhyw gamau pellach.

CEISIADAU

(4) Cais 1

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni neu Gerbyd Llogi Preifat.

(5) Cais 2

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni neu Gerbyd Llogi Preifat.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.15 pm